SESIWN 6: MYND GAM YMHELLACH

Ystod oedran: 5-8 oed **Amser: 1 awr**

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn estyn yr hyn y maent wedi'i ddysgu drwy gynllunio gweithgaredd gwaith cartref i greu llun o aelod o'u teulu. Yna, bydd y dysgwyr yn trafod sut y byddent yn hoffi rhannu'r gwaith a wnaed ganddynt yn ystod yr uned hon â chymuned ehangach yr ysgol.

Amcanion dysgu

- Deall pwysigrwydd lluniau a'r straeon sy'n gefndir iddynt o ran rhoi argraff o fywydau'r plant.
- Defnyddio lluniau i drin a thrafod agweddau ar fywyd bob dydd mewn diwylliant arall.
- Defnyddio trafodaeth i feithrin dealltwriaeth drwy ddyfalu, damcaniaethu, dychmygu ac archwilio syniadau.
- Cyfathrebu'r hyn a ddysgwyd â chymuned ehangach yr ysgol.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn archwilio'r lluniau a dynnwyd gan blant yn Fiet-nam o aelodau o'u teulu, ac yn darllen y straeon sy'n gefndir i'r lluniau.
- Bydd y dysgwyr yn cynllunio eu llun eu hunain sy'n adrodd stori am aelod o'u teulu nhw.
- Bydd y dysgwyr yn rhannu syniadau o ran sut i rannu'r hyn y maent wedi'i ddysgu â chymuned ehangach yr ysgol.

Cwestiynau allweddol

- Pwy yw'r bobl yn y llun?
- Ble y cafodd y llun ei dynnu? Beth yw'r lleoliad?
- Beth y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud?
- Pam y mae'r ffotograffydd yn teimlo ei bod yn bwysig tynnu'r llun hwn?

Adnoddau

- Taflen waith: *Lluniau teulu*
- Taflen waith: *Cynllunio gwaith cartref: Stori deuluol*
- Sioe sleidiau: *Lluniau sy'n adrodd stori* sleidiau 27 i 31

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

OXFAM

Amlinelliad o'r gweithgareddau

- Cafodd y lluniau yn yr adnodd hwn eu tynnu gan blant o bedwar grŵp lleiafrifoedd ethnig yn Fiet-nam a oedd wedi cael camerâu i gofnodi eu bywydau a'u profiadau bob dydd. Bu detholiad o'r lluniau yn rhan o arddangosfa a gafodd sylw eang a chadarnhaol iawn ar y cyfryngau ledled Fiet-nam a'r byd ehangach. Roedd y rheiny a welodd y lluniau yn aml yn synnu at allu'r ffotograffwyr ifanc i agor cil y drws ar fyd a oedd, tan hynny, wedi bod ynghudd rhag oedolion. Mae'r ffotograffwyr ifanc hyn yn arsylwyr soffistigedig sy'n pryderu am eu cymunedau ac yn awyddus i chwarae eu rhan i wireddu newid cadarnhaol.
- Efallai y bydd profiad ffotograffwyr Fiet-nam yn ysbrydoli athrawon yng Nghymru ac y byddant am drefnu arddangosfa o'r fath yn eu hysgol neu'u cymuned. Os oes gennych ysgol sy'n bartner, er enghraifft mewn rhan wahanol o'r wlad neu dramor, gallech awgrymu bod yr ysgol honno hefyd yn cwblhau'r uned waith hon. Yna, gallai'r ddwy ysgol rannu rhai o straeon a lluniau'r dysgwyr â'i gilydd, a mynd ati i gymharu a chyferbynnu eu bywydau bob dydd ymhellach.

Tasg gychwynnol *(20 munud)*
Lluniau teulu

- Dangoswch sleidiau 27 i 31 i'r dosbarth neu defnyddiwch y taflenni gwaith *Lluniau teulu.* Eglurwch fod y ffotograffwyr wedi tynnu lluniau o aelod o'u teulu. Gallai'r dysgwyr ystyried pwy allai'r aelod teulu fod, a thrafod yr hyn y gallai fod yn ei wneud.
- Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp a rhowch i bob grŵp un o'r lluniau a'r stori gysylltiedig ar y taflenni gwaith *Lluniau teulu.* Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y stori gyda'i gilydd, edrych ar y llun, ac ateb y cwestiynau hyn:
    - **Pwy** yw'r bobl yn y llun?
    - **Ble y** cafodd y llun ei dynnu?
    - **Beth** y mae'r bobl yn y llun yn ei wneud?
    - **Pam** y mae'r ffotograffydd yn teimlo ei bod hi'n bwysig tynnu'r llun hwn?
- Gofynnwch i bob grŵp rannu'r llun y bu'n edrych arno ac egluro'r stori sy'n gefndir iddo wrth weddill y dosbarth.

Gweithgaredd 6.1 *(20 munud)*
Cynllunio gwaith cartref

- Eglurwch mai tasg gwaith cartref y dysgwyr yw creu eu llun eu hunain o aelod o'u teulu yn gwneud tasg bob dydd mewn lle cyfarwydd. Gallant ddefnyddio camera neu bapur a phensel i dynnu'r llun.
- Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu syniadau ar gyfer eu llun gyda phartner, gan ddefnyddio'r cwestiynau hyn i sbarduno'r drafodaeth:
    - Pwy fydd yn eich llun chi?
    - Ble y bydd y person hwn?
    - Beth y bydd e neu hi'n ei wneud?
    - Pam yr ydych am rannu'r llun hwn?
    - Pam yr ydych yn meddwl ei fod yn llun pwysig i'w dynnu?
- Gallai'r dysgwyr gofnodi eu syniadau ar gyfer eu llun ar y daflen waith *Cynllunio gwaith cartref: Stori deuluol.* Byddai modd egluro wrth y dysgwyr y gall fod angen iddynt addasu

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

eu syniadau ar ôl iddynt fynd adref, gan ddibynnu ar y gweithgaredd y maent am dynnu llun o aelod o'u teulu yn ei wneud.
- Pan fydd y dysgwyr wedi cael cyfle i gwblhau'r gweithgaredd hwn, gwnewch yn siŵr bod eu gwaith yn cael ei ddathlu a'i rannu.

Gweithgaredd 6.2 *(15 munud)*
Cynllunio i rannu

- Awgrymwch wrth y dysgwyr mai un ffordd o ddod i wybod am fywydau pobl eraill yw drwy rannu eu straeon. Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi mynd ati yn ystod yr uned hon i wrando ar lawer o wahanol straeon am eu bywydau nhw a bywydau rhai plant sy'n byw yn Fiet-nam, eu darllen a'u hadrodd. Awgrymwch y gallech rannu'r straeon hyn hyd yn oed ymhellach ymhlith cymuned ehangach yr ysgol ac y gallai hon fod yn ffordd gadarnhaol o rannu'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu, gan dynnu sylw at y pethau yr ydych wedi sylwi eu bod yn debyg ac yn wahanol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r straeon y bu iddynt eu dysgu ym mhob sesiwn:
    - Sesiwn 2: Ailadrodd y straeon sy'n gefndir i'r lluniau.
    - Sesiwn 4: Ailadrodd ac ysgrifennu straeon y dysgwyr eu hunain am fywyd bob dydd yn eu hysgol.
    - Sesiwn 5: Archwilio'r pethau sy'n debyg a'r pethau sy'n wahanol o gymharu eu bywydau bob dydd nhw â bywydau rhai o'r plant sy'n byw yn Fiet-nam.
    - Sesiwn 6: Rhannu lluniau a straeon aelodau teulu yng Nghymru ac yn Fiet-nam.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried eu syniadau o ran sut i rannu'r straeon hyn â chymuned ehangach yr ysgol. Dyma rai syniadau posibl:
    - Darllen a pherfformio'r straeon mewn gwasanaeth ar gyfer dysgwyr ac athrawon eraill.
    - Cynnal digwyddiad ar gyfer aelodau o gymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, aelodau o deuluoedd y disgyblion, a'r llywodraethwyr. Gallai hyn gynnwys darllen a pherfformio straeon ac arddangos lluniau'r dysgwyr.
    - Creu arddangosfa yn yr ysgol i rannu lluniau a straeon o Gymru ac o Fiet-nam.
    - Creu llyfr stori sy'n cynnwys holl straeon y dysgwyr ynghyd â straeon y bobl ifanc o Fiet-nam. Byddai modd rhoi'r llyfr mewn man lle gall eraill ei weld, fel llyfrgell neu fynedfa'r ysgol.

Sesiwn lawn *(5 munud)*

- Trafodwch holl syniadau'r dysgwyr ac ewch ati i greu cynllun gweithredu sy'n nodi sut y byddwch yn rhannu'r straeon â chymuned ehangach yr ysgol.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB
Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect ei gyflawni.

Lluniau teulu

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: H Điệp / Dan tộc / Grŵp ethnig: M'Nong / Trường THCS Nam Nung, Huyện Krong No, tỉnh Đăk Nong

Mae fy nhad-cu yn plethu basged. Cyn iddo ddechrau ar y gwaith, mae'n rhaid iddo fynd i'r goedwig a thorri coesynnau bambŵ neu ratan, ac yna mae'n rhaid iddo dorri'r rhain yn stribedi. Mae fy nhad-cu yn dda iawn am wneud basgedi. Mae'n dasg anodd ac mae'n cymryd llawer o amser. Mae fy nhad-cu yn gallu cwblhau basged mewn llai na dau ddiwrnod oherwydd ei fod yn fedrus iawn.

Mae fy nhad-cu yn gwneud basgedi i'w defnyddio ei hunan, ond mae hefyd yn eu gwerthu i ennill arian i'r teulu. Gall pob basged gael ei gwerthu am tua £3. Mae'r arian hwn yn talu i mi fynd i'r ysgol. Mae'r bobl hŷn yn trosglwyddo'r grefft o blethu basgedi i'r bobl iau. Tynnais y llun hwn i ddangos bod yn rhaid i ni ddysgu'r sgiliau hyn. Rydw i hefyd am ddangos bod fy nhad-cu yn rhywun arbennig. Er ei fod yn hen, mae'n dal i weithio dros ei deulu.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cydnabyddiaeth y llun: Tác giả / Awdur: Thành Thị Thiên Lý / Dân tộc / Grŵp ethnig: Chăm / Trường THCS Hà Huy Tập, Huyện Thuận Bắc, tỉnh Ninh Thuận

Mae'r rhan fwyaf o bobl Fiet-nam yn caru ac yn parchu eu teuluoedd yn fawr iawn. Bydd y mab hynaf yn aml yn byw gyda'i rieni pan fydd yn dod i oed, a bydd y teulu'n gofalu am y neiniau a'r teidiau yn eu henaint. Mae'r bachgen bach hwn yn agos iawn at ei dad-cu, sy'n byw gydag e.

Yn y llun hwn, mae'r tad-cu a'i ŵyr yn rhannu pryd syml iawn. Maent yn bwyta reis gyda physgod wedi'u halltu a llysiau. Maent yn gwneud llawer o bethau gyda'i gilydd, er enghraifft casglu coed tân, mynd i'r caeau, a physgota.

Bob dydd ar ôl yr ysgol, bydd yr ŵyr yn dod adref a bydd ei dad-cu yn rhoi gwersi ychwanegol iddo. Weithiau, bydd y bachgen bach hwn yn mynd i bysgota neu i nofio gyda phlant eraill yn lle mynd i'r ysgol. Weithiau, bydd yn casglu caniau alwminiwm a phlastig a daflwyd gan bobl. Bydd yn gwerthu'r pethau hyn i ennill ychydig mwy o arian i'w deulu. Pan fydd ei dad-cu yn dod i wybod nad yw ei ŵyr wedi bod i'r ysgol, bydd yn dweud wrtho pa mor bwysig yw dysgu, a bydd yn dychwelyd i'r ysgol.

Tynnais y llun hwn i ddangos sut y mae angen i blant barchu eu rhieni a'u neiniau a'u teidiau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: H Ip / Dan tộc / Grŵp ethnig: M'Nong / Trường THCS Nam Nung, Huyện Krong No, tỉnh Đăk Nong

Mae'r llun hwn yn dangos fy chwaer, H'Dan, a'i merch, Hau, yn torri blagur ratan yn ddarnau bach a'u rhoi mewn pot. Maent wedi casglu'r blagur ratan o'r goedwig. Mae'r coesynnau wedi'u gorchuddio â drain ac felly mae'n dasg anodd eu casglu. I gyrraedd y goedwig, mae'n rhaid croesi afonydd a dringo mynyddoedd. Mae hi'n boeth iawn. Pe bai rhaid i mi fynd, byddwn fwy na thebyg yn llewygu.

Fy chwaer yw cogydd gorau'r teulu. Pryd bynnag y byddaf yn ei gweld yn coginio, byddaf yn mynd ar fy union i'w chartref i fwyta a bydd hi wastad yn rhoi croeso i mi. Mae Hau yn ei helpu i wneud cawl bendigedig. Cawl gyda dail bếp yw fy hoff fwyd. Yn Fiet-nam, rydyn yn hoffi bwyta gyda'n gilydd fel teulu. Rydyn yn cael plât o reis ac yn rhannu bwyd o'r powlenni ar ganol y bwrdd.

Byddwn wrth fy modd pe bai fy chwaer yn fy nysgu i goginio ei chawl arbennig, ond nid oes ganddi'r amser. Tynnais y llun hwn oherwydd fy mod yn meddwl mai'r cawl o'm pentref i yw'r gorau yn Fiet-nam.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: Vang Thị Mao / Dan tộc / Grŵp ethnig: H'Mong / Trường Phổ thong Dan tộc Ban tru THCS xa / Mản Thẩn, Huyện Simacai, tỉnh Lao Cai

Mae gŵyl Blwyddyn Newydd y Lleuad, neu ŴyI Tet, yn adeg arbennig iawn yn Fietnam. Mae'n para sawl diwrnod ac mae pawb yn treulio amser yn paratoi ar ei chyfer. Pan fydd yr ŵyl yn agosáu, bydd fy mam yn aml yn gwnïo dillad a ffrogiau ar gyfer y teulu. Bydd yn prynu defnydd o'r farchnad, ond bydd yn gwnïo'r dyluniadau ei hun â llaw.

Mae'n cymryd tua wyth mis i frodio patrymau ar sgert â llaw. Gallwch weld y brodwaith ar sgert a thop fy mam yn y llun hwn. Mae fy mam yn ennill arian i'r teulu trwy wnïo sgertiau. Rhyw ddiwrnod, rydw i am wnïo cystal â hi, ond dydw i ddim yn gallu gwneud hynny eto. Pan ddywedais wrth fy mam fod arnaf eisiau dysgu sut i wnïo, dywedodd y dylwn ganolbwyntio ar astudio am y tro.

Mae gwnïo sgertiau yn dasg anodd iawn, ond byddaf yn helpu fy mam trwy bwytho patrymau arnynt. Dechreuais wneud y gwaith hwn pan oeddwn yn ddeg oed. Tynnais y llun hwn oherwydd fy mod yn falch o'r dillad yr ydym yn eu gwneud yn fy mhentref. Pan fyddaf wedi dysgu sut i wnïo, byddaf i hefyd yn gallu helpu i ennill arian ar gyfer fy nheulu.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cydnabyddiaeth y llun: Tac giả / Awdur: H'Ip / Dan tộc / Grŵp ethnig: M'Nong / Trường THCS Nam Nung, Huyện Krong No, tỉnh Đăk Nong

Mae'r llun hwn yn dangos fy mam, H'Co, a'm nith, H'Hau sy'n bump oed, yn didoli dail bếp. Mae dail bếp yn tyfu yn y goedwig o amgylch fy mhentref i. Bydd fy rhieni yn aml yn casglu'r dail hyn i'r teulu eu bwyta. Byddwn yn cario'r dail mewn basged fawr wastad. Byddwn yn aml yn coginio dail bếp gyda chig a blawd, neu'n eu defnyddio i wneud stiw blasus. Yn fy nheulu i, mae pawb yn gwybod sut i goginio gan ddefnyddio'r dail hyn, a chawl dail bếp yw fy hoff fwyd i. Gallwch ei goginio gyda blawd ac yna ei fwyta gyda reis.

Tynnais y llun hwn oherwydd ei fod yn dangos pa mor galed mae fy mam a Hau yn gweithio i baratoi pryd blasus i'r teulu.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Cynllunio gwaith cartref: Stori deuluol

Eich tasg gwaith cartref yw creu llun o rywun yn eich teulu yn gwneud gweithgaredd yn y cartref. Gall fod yn gwneud unrhyw beth, o goginio yn y gegin i chwarae pêl-droed yn yr ardd neu eich helpu gyda'ch gwaith cartref yn yr ystafell fyw. Gallwch benderfynu pa stori y byddech yn hoffi ei hadrodd am aelod o'ch teulu chi.

Gallech dynnu llun â phensel yn y blwch isod neu dynnu llun â chamera.

Rydych eisoes wedi dechrau ystyried pa stori y byddech yn hoffi i'ch llun ei hadrodd. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi newid eich syniadau ar ôl i chi drafod eich syniadau â rhywun gartref, ond dyma eich syniadau hyd yma:

Pwy fydd yn eich llun chi?	
Ble y bydd y person hwn?	
Beth y bydd yn ei wneud?	
Pam yr ydych am rannu'r llun hwn ag eraill? Pam yr ydych yn meddwl ei fod yn llun pwysig i'w dynnu?	

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.